**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**
**6 Ionawr 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Jiwbili Llangeitho**
***Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,***
***6 January 2025 at 8.00 pm at Jiwbili Hall, Llangeitho***

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb
*The Chair welcomed everyone to the meeting and wished everyone a Happy New Year.*

**Presennol/*Present***
Cyng Beryl Evans (Cadair/*Chair*), Gwilym Evans, Emyr Jones, Dafydd Morse, Paul Rooke, Gwenfair Owen, Daniel Thomas, Myrddin James a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/*Apologies*** – Cyng/*Cllr* Sarah Evans, Rhian Turner, Ieuan Gwynne & PCSO John Evans.

**Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*** – Neb / *No one*

**Adroddiad yr Heddlu / *Police Report***
Derbyniwyd a chylchredwyd adroddiad yr Heddlu.
*The police report was received and distributed*

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting***
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen.
*The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Gwilym Evans and seconded by Cllr Gwenfair Owen.*

**Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes***

- Tyllau yn y ffordd draw o Gwesty'r Tair Bedol am yr Ysgol Gynradd wedi'u llenwi, ynghyd ac oddi amgylch Felin Fawr.
  *Potholes from the Three Horse Shoe to the Primary School had been repaired, as well as around Felinfawr.*
- Angen presenoldeb y sweeper yn y dair ward, yn enwedig lawr o Benuwch am Langeitho, heibio, Llidiartmaengwyn, a heibio Maesrhug am Tyncelyn. *Sweeper required in the three wards, especially from Penuwch to Llangeitho, from Llidiarmaengwyn, and from Maesrhug to Tyncelyn.*
- *Son*iwyd nad yw'r gyli/draen wedi'u glanhau gyferbyn a Penlan, Penuwch, SY25 6RA.
  *It was noted the gully/drain opposite Penlan, Penuwch, SY25 6RA had not been emptied.*
- Dŵr dros y ffordd i gyd ar bwys Aeron Villa, Rhydypandy, Llangeitho.
  *Water across the road by Aeron Villa, Rhydypandy, Llangeitho.*

**Cyfrifon/*Accounts***

- Cyflog Clerc – Rhagfyr £129.27 – *Clerk salary for December*
- Dwr Cymru / *Welsh Water* £14.45
- Balans y banc - £11,745.68 – *Bank Balance*

Cytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Gerwyn Ebenezer ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse
*Payments to be made – proposed by Cllr Gerwyn Ebenezer and seconded by Cllr Dafydd Morse*

**Gohebiaeth/*Correspondence***
Dim i'w drafod / *Nothing to discuss*

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***

- Cais cynllunio – Bleddyn Jones I L & W A Jones, Penforial, Llangeitho, SY25 6QJ – 'Shuttered concrete slurry store'. Cytunwyd i gefnogi'r cais ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James.
  *Planning Application – Bleddyn Jones, I L & W A Jones, Penforial, Llageitho, SY25 6JQ – 'Shuttered concrete slurry store'. Agreed to support the application – proposed by Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Myrddin James.*

**Toiledau Cymunedol yn Llangeitho *Public Conveniences in Llangeitho***

Trafodwyd y pwysigrwydd bod angen y toiledau cyhoeddus yn Llangeitho i sefyll ar agor. Mae'r toiledau yn adnodd cymunedol pwysig, a'r penbleth o'r gost sy'n ynghlwm a'i trosglwyddo dan adain y Cyngor Cymuned. Er tegwch i drigolion yr ardal, nid yw'r Cyngor Cymuned yn methu gwarant rhoi'r costau ychwanegol ar y trethdalwyr a chodi'r praesept am y flwyddyn 2025-26. Soniwyd bod costau'r Cyngor Sir yn codi 10% yn flynyddol fel ag y mae, ac ail-adroddwyd pa mor bwysig oedd y cyfleuterau yma yn y gymuned ac iddynt sefyll ar agor.

*The importance of keeping the public conveniences in Llangeitho open were discussed. The toilets are an important resource in the community, and the costs involved if transferred to the care of the Community Council. It would be unfair to the residents of the Community Council if the precept for 2025-26 was raised to fund the extra costs. It was noted that the County Council costs raise 10% annually, but it was reiterated that these conveniences were an important asset to the community and should remain open.*

**Praesept 2025-26 *Precept***

Trafodwyd nifer o gostau a phrosiectau am y flwyddyn 2025-26 ond cytunwyd yn unfrydol i geisio am £5,500 o praesept am 2025-26, gyda defnyddio'r arian sydd mewn llaw yn ôl yr angen.

*Several costs and projects were discussed for the year 20205-26 but it was unanimously agreed to request a precept of £5,500 for 2025-26, and to use reserve funds according to need.*

**Yr Hen gysgodfan bws, Tro Pair, Llangeitho / The old bus shelter in Llangeitho**

Yn dilym ymlaen o'r cyfarfod diwethaf, parhawyd i drafod yr hen gysgodfan bws sydd wedi ei drawsnewid gan grwp bach o fewn y gymuned.

Cytunwyd i'r clerc drafod y sefyllfa gyda'r Adran Gyfreithiol a'r cwmni aswiriant Zurich ac i ddechrau drafftio dogfen drafod erbyn y cyfarfod nesaf.

*Following on from the last meeting, discussion continued about the old bus shelter that has been converted by a small group within the community.*

*It was agreed that the Clerk should discuss the situation with the Legal Department and Zurich insurance company and to begin drafting a document to be discussed in the next meeting.*

**Prosiect Waun Maenllwyd *Project***

Nid oedd yna ddyddiad wedi'u drefnu hyd yma am y cyfarfod nesaf ond gofynnwyd i'r Cynghorwyr i anfon unrhyw sylwadau i'r Cadeirydd.

*No date had been arranged for the next meeting, but Councillors should send any comments to the Chairman.*

**Un Llais Cymru/*One Voice Wales***

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

**Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***

- Diolchwyd i Cyng Daniel Thomas a Cyng Sarah Evans am drefnu agor y Neuadd yn dilyn Storm Darragh at ddefnydd y cyhoedd.
  *Cllrs Daniel Thomas and Sarah Evans were thanked for their efforts to ensure that the Hall was opened for public use following Storm Darragh.*
- Soniwyd bod yna gyfarfod rhwng aelodau Capel Penuwch a'r Henaduriaeth yn fuan i drafod dyfodol y Capel.
  *It was noted that a meeting between members of Capel Penuwch and the Presbytery regarding the future of the chapel was to be held soon.*
- Soniwyd bod yna goed lawr ar bwys Tŷ'r Banc am Tyncelyn, cyfrifoldeb perchennog y daear yw'r coed sydd wedi cwympo.
  *It was noted that trees have fallen by Tŷ'r Banc towards Tyncelyn, the treen were the responsibility of the landowner*
- Ceuffos ar bwys Meini Gwynion/Cwmrefail angen sylw'r Cyngor Sir Ceredigion.
  *Culvert by Meini Gwynion/Cwmrefail needs to be repaired/cleared by Cyngor Sir Ceredigion.*
- Soniwyd am y rhewgell a'r oergell sydd wedi'u adael ar ben lôn Derlwyn Fach, Cadeirydd i drefnu gael gair efo'r perchnogion.
  *It was noted that a freezer and fridge had been left at the top of Derlwyn Fach lane. The Chair to talk to the owners.*
- Soniwyd bod effaith dim trydan ar ôl storm Darragh wedi effeithio'r gymuned dipyn ac faint mor anodd oedd hi i ddibynnu ar radio am y newyddion.
  *It was noted that the loss of electricity after Storm Darragh had affected the area substantially and that it was difficult to depend on the radio for news.*

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting***

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 3ydd o Chwefror 2025 yn Neuadd Jiwbili Llangeitho am 8 o'r gloch.
*The next meeting will be held at Llangeitho Jubilee Hall, on Monday 3rd February 2025 at 8.00 o'clock.*